**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**
**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 30 EBRILL 2025 YN CP2 a thrwy Teams**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd); Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd), Dianne Bevan, Frank Cuthbert, Ginger Wiegand, Bethan Williams Price, Karen Jones, Frances Duffy, Andrew Blackmore (Cadeirydd, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Tom Jenkins (Pennaeth Arolygon); Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Huw Blacker (Rheolwr Arolygon); Ellie Chapman (Cymorth Tîm)

**Gwesteion:** Osian Llywelyn (Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg)

**Ymddiheuriadau:** Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd), Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd), Caitlin Lowry (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd)

**Amser Dechrau: 10:02**
**Amser Gorffen: 11:48**

**1. Datganiadau Buddiannau**

**1.1.** Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Briff gan y Cadeirydd**

**2.1.** Rhoddwyd briff y Cadeirydd gan y Cadeirydd. Diolchodd y Cadeirydd i Michael Imperato am gadeirio Cyfarfod y Comisiwn ar 26 Mawrth 2025.

**2.2.** Diolchodd y Cadeirydd i'r cadeiryddion a fyddai'n bresennol yng nghyfarfod brynhawn heddiw.

**2.3.** Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Llythyr Cylch Gwaith gan Lywodraeth Cymru yn cael ei drafod brynhawn heddiw. Mae'r Llythyr Cylch Gwaith Drafft yn cael ei ddal ar hyn o bryd, ond bydd angen gwneud mân newidiadau cyn cytuno arno. Nodwyd y byddai'r Llythyr Cylch Gwaith yn cael ei gytuno yn y cyfarfod nesaf ar 29 Mai 2025.

**2.4.** Dywedodd y Prif Weithredwr fod diweddariad wedi cael ei roi i'r Is-adran Noddi ar y Platfform Gwybodaeth.

**2.5.** Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar recriwtio. Mae'r Is-adran Noddi yn ystyried cynnal 1 sesiwn recriwtio bob 12 mis. Byddai angen gwneud cais am benodiadau newydd yn y ffordd gyffredinol, ac ni fyddai penodiadau'n cael eu hymestyn ac ni ellid gofyn amdanynt, wrth symud ymlaen.

**2.6.** Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymarfer Adolygiad Hunanasesu o gyrff hyd braich sy'n cynnwys holiadur â 100 o gwestiynau i'w gwblhau. Nod yr adolygiad fyddai dysgu gwersi a llywio trafodaethau ar wella'n barhaus wrth symud ymlaen.

**2.7.** Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at oedi wrth wneud Gorchmynion Arolwg Cymunedol gan Lywodraeth Cymru. Mae Arolygon Bro Morgannwg a Chaerffili gyda'r Gweinidog ar hyn o bryd ac yn aros am gael eu cymeradwyo. Bydd oedi wrth wneud Gorchmynion yn effeithio ar amserlen y Rhaglen Arolygon Etholiadol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr oedi ar ochr Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chapasiti o fewn LIC. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn yn fater i Lywodraeth Cymru ei ddatrys.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Mawrth

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2025 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân gywiriadau.

## 4. Materion sy'n Codi

**4.1.** Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd yn ddiweddar. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd fod gwaith monitro 'X' yn awgrymu bod grŵp a adwaenir fel 'DOGE' neu 'Wastraff Senedd' yn anfon ceisiadau rhyddid gwybodaeth at gynghorau, cyrff cyhoeddus ac adrannau'r llywodraeth yn holi ynghylch mentrau amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant.

**4.2.** Yn ogystal, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar recriwtio aelod annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cafodd y Comisiwn 12 o geisiadau. Roedd 3 o'r rhain yn anaddas, ond roedd yr ymgeiswyr eraill i gyd yn ymddangos yn gryf. Bydd y rhestr fer yn cael ei llunio ddydd Gwener 2 Mai a bydd yr ymgeiswyr yn cael eu cyfweld ar 22 Mai 2025.

## 5. Y Bwrdd Rheoli Etholiadol

**5.1.** Rhoddwyd y diweddariad ar lafar.

**5.2.** Mae cyfarfod cyntaf y Bwrdd Rheoli Etholiadol wedi cael ei gynnal a thrafodwyd blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf.

**5.3.** Nodwyd bod fersiwn ddrafft o'r ddogfen Rheolau a Gweithdrefnau wedi cael ei chylchredeg. Trafodwyd y byddai'r pennawd Adnoddau yn cael ei ddiwygio i Lywodraethu ac Adnoddau.

**5.4.** Cafwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â statws endid cyfreithiol y Bwrdd a'i gyfrifoldebau, er mwyn sicrhau bod gan CDFfC ddigon o sicrwydd ynglŷn â'r ffordd y cyflawnir y swyddogaethau. Disgwylir i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gytuno ar y ddogfen lywodraethu yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mehefin ac fe'i cyflwynir yn ôl i'r Comisiwn wedi hynny yn y cyfarfod nesaf.

## 6. Cydnabyddiaeth Ariannol

**6.1.** Rhoddwyd diweddariad ar y gwaith a etifeddwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**6.2.** Cynhelir trafodaethau ar newid enw'r pwyllgor o'r 'Is-bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol' i'r 'Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol'.

**6.3.** Mae angen hefyd i'r pwyllgor egluro a yw penderfyniadau a wneir ganddo ef ei hun yn argymhellion yn unig neu'n benderfyniadau terfynol.

## 7. Adroddiad Monitro'r Gyllideb 2024-25

**7.1.** Rhoddodd y Rheolwr Cyllid ddiweddariad ar Adroddiad Cyllideb 2024-2025. Roedd cronfeydd wedi cael eu trosglwyddo sawl gwaith rhwng categorïau'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn i fynd i'r afael â rhywfaint o fân orwariant a thanwariant, a nodwyd hyn.

**7.2.** Adroddwyd bod holl ddyraniad Cymorth Grant y Comisiwn ar gyfer 2024-25 wedi cael ei dynnu i lawr i dalu am wariant, a bod £4,970 ar ôl heb ei wario ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Nodwyd bod hyn o fewn y terfyn £20,000 ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer cario cronfeydd heb eu gwario drosodd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**7.3.** **Nodwyd** bod tanwariant o £32,000 o ran gwariant Adnoddau oherwydd bod sawl rhagdaliad mawr wedi'i wneud ar ddiwedd 2024-25. Y mwyaf nodedig o'r rhain oedd trwydded 5 mlynedd o flaen llaw ar gyfer meddalwedd fapio MapInfo a rhaglen hyfforddiant i'w chyflwyno yn ystod 2025-26 y bu'n rhaid talu amdani o flaen llaw i'w sicrhau.

**7.4.** **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad ar y gyllideb a sefyllfa'r gyllideb ar gyfer diwedd 2024-25.

## 8. Rheoli Risg – Cofrestr Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg CDFfC fel y'i cytunwyd yng nghyfarfod mis Mawrth. Nodwyd bod cofrestr risg ar wahân wedi cael ei llunio ar gyfer y Bwrdd Rheoli Etholiadol a thrafodwyd sicrhau bod y trefniadau llywodraethu sy'n angenrheidiol i gefnogi'r Bwrdd yn cyd-fynd â threfniadau llywodraethu CDFfC er mwyn osgoi risg dyblygu.

**8.2.** **Cytunwyd** ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol bresennol ac nad oes angen unrhyw newidiadau ar yr adeg hon.

## 9. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 17 Ebrill 2025 gan y Pennaeth Arolygon.

**9.2.** **Cytunodd** y Comisiwn ar fersiwn ddrafft Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025, fel y'i lluniwyd gan y cynghorydd cyfreithiol. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r Gorchymyn a fydd yn dod i rym y diwrnod ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud.

**9.3.** **Nododd** y Comisiwn sefyllfa'r arolygon cymunedol eraill sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdodau lleol.

**9.4.** **Cytunodd** y Comisiwn ar fersiwn derfynol y ddogfen Polisi ac Ymarfer a oedd yn cynnwys yr awgrymiadau o'r negeseuon e-bost a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf. Trafododd y Comisiwn gyhoeddi'r ddogfen a'r amserlen o ystyried na chafwyd unrhyw benderfyniadau eto ar arolygon cymunedol gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, a chytunodd y gallai'r ddogfen Polisi ac Ymarfer gael ei chyhoeddi, yn amodol ar fân ddiwygiadau a rhai diweddariadau i'r Gymraeg gan Bethan.

**9.5.** **Cytunodd** y Comisiwn ar y sleidiau a'r sgript friffio a fyddai'n cael eu defnyddio yn y sesiynau gwybodaeth ar ddechrau'r arolygon.

## 10. Calendr Digwyddiadau

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Calendr Digwyddiadau a **chytunwyd** arno.

## 11. Unrhyw Fater Arall Perthnasol – Cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol

**11.1.** Gofynnodd y Cadeirydd am wirfoddolwyr i fynychu cynhadledd Un Llais Cymru ar ran y Comisiwn. Bydd unigolion yn cysylltu â'r Cadeirydd ar wahân i fynegi diddordeb.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 29 Mai 2025